# POLISI ATAL CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

**DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD**

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd, mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

## Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddatblygu disgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac bydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddant am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

**Cyflwyniad**

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ymrwymedig i chwarae rhan lawn yn y broses o addysgu disgyblion am ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau o ddifrif. Mae'n cefnogi strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer mynd i'r afael â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau drwy helpu disgyblion a phobl ifanc i wrthsefyll yr awydd i gamddefnyddio sylweddau er mwyn cyflawni eu potensial yn llawn mewn cymdeithas.

Fel rhan o ddarpariaeth Iechyd a Lles gyffredinol yr ysgol ceir rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau sy'n berthnasol i oedran y disgyblion. Nodir hefyd strategaethau ar gyfer rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau. Mae'r ddwy elfen hon yn adlewyrchu canllawiau awdurdod lleol a'r canllawiau yng nghylchlythyr cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru 107/2013.

Lluniwyd y datganiad polisi hwn ar ôl ymgynghori ag aelodau o staff, disgyblion, rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Rhesymeg addysg camddefnyddio sylweddau**

Prif nod addysg camddefnyddio sylweddau yw galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau iach, cyfrifol a hyddysg am gyffuriau. Bydd yn helpu i atal pobl ifanc rhag dechrau defnyddio sylwedd neu'n oedi'r broses o ddechrau ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

Er mwyn grymuso disgyblion i wneud dewisiadau hyddysg, yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg byddwn yn:

a) rhoi gwybodaeth gywir am gyffuriau a'u heffaith, y gyfraith, a ffyrdd o gadw'n ddiogel;
b) ystyried agweddau, sgiliau a dealltwriaeth, trafod cymryd risg a meithrin hunan-barch;
c) meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, fel cyfathrebu'n effeithiol, bod yn bendant, gwneud penderfyniadau a datrys problemau.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod sgyrsiau untro gan siaradwyr allanol sydd â'r nod o godi ofn neu sy'n canolbwyntio ar wybodaeth yn unig yn ddulliau aneffeithlon a hyd yn oed wrthgynhyrchiol o gyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau. Mae'r dulliau o gyflwyno sydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran lleihau ymddygiad cymryd cyffuriau neu sy'n oedi'r broses o wneud hynny yn seiliedig yn fras ar sgiliau bywyd.

Mae'r ysgol yn cydnabod nad yw camddefnyddio sylweddau yn ymwneud cymaint â chyffuriau ond â'r disgyblion eu hunain - eu gwerthoedd a'u hagweddau, eu cydberthnasau, eu problemau, eu hawydd i gymryd risg, eu penderfyniadau, a'u hawydd am gyffro. Felly, mae angen cynnwys disgyblion yn y broses sy'n mynd i'r afael â gwybodaeth, agweddau a gwerthoedd, ac ymddygiad.

**Nodau**

Nodau addysg camddefnyddio sylweddau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw:

a) helpu disgyblion i fod yn ymwybodol o sylweddau peryglus a all fod o'u cwmpas yn y cartref ac yn y gymuned - e.e. sigaréts, fepiau, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon;
b) rhoi gwybodaeth ddigonol i blant am sylweddau fel y gallant gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.
c) helpu disgyblion i ystyried eu hagweddau a'u gwerthoedd a rhoi'r sgiliau perthnasol iddynt fel y gallant wneud penderfyniadau hyddysg ac iach am sylweddau.

**Rheoli materion a digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau o fewn yr ysgol**

1. Diffiniad o 'gyffur'

Ystyr cyffur yw sylwedd y mae pobl yn ei gymryd er mwyn newid y ffordd y maent yn teimlo, yn meddwl neu'n ymddwyn.

Isod ceir rhestr glir o gategorïau sy'n helpu i ddiffinio'r gair 'cyffur':

a) Cyffuriau sy'n sylweddau a reolir/anghyfreithlon (er enghraifft canabis, amffetaminau, ecstasi, LSD, Khat) o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971
b) Meddyginiaethau dros-y-cownter a thrwy bresgripsiwn, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir yn anghywir megis tabledi cysgu a thabledi colli pwysau
c) Pob cyffur cyfreithlon gan gynnwys alcohol, tybaco, sylweddau a thoddyddion anweddol, Ketamine a nitradau alcyl
d) Cyffuriau a gamddefnyddir er mwyn gwella perfformiad (er enghraifft poenladdwyr neu steroids)

Mae'r Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn defnyddio'r diffiniadau canlynol, a gydnabyddir yn genedlaethol:

**Defnyddio Cyffuriau**

Ystyr defnyddio cyffuriau yw cymryd cyffuriau a all arwain at niwed, boed drwy feddwdod, torri rheolau'r ysgol neu'r gyfraith, neu'r posibilrwydd o broblemau iechyd yn y dyfodol, er nad yw niwed o'r fath o bosibl yn amlwg ar y pryd. Mae defnyddio cyffuriau yn galw am ymyriadau fel rheoli, addysg, cyngor a gwybodaeth, a gwaith atal er mwyn lleihau'r posibilrwydd o niwed. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn gysylltiedig â pholisi diogelwch yr ysgol.

**Camddefnyddio Cyffuriau**

Achos o gymryd cyffuriau sy'n niweidio iechyd neu weithrediad. Gall fod ar ffurf dibyniaeth gorfforol neu seicolegol neu gall fod yn rhan o sbectrwm ehangach o ymddygiad problematig neu niweidiol. Bydd camddefnyddio cyffuriau yn galw am amrywiaeth o ymyriadau pellach, a all gynnwys triniaeth.

**Diffinio digwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau**

Mae digwyddiad yn debygol o gynnwys amau, arsylwi, datgelu neu ddarganfod sefyllfaoedd sy'n cynnwys cyffuriau heb eu hawdurdodi. Gellir ei roi yn un o'r categorïau canlynol:

a) darganfod cyffuriau neu gyfarpar cyffuriau ar safle'r ysgol

b) disgybl yn cael ei ddal gyda chyffuriau neu gyfarpar cyffuriau yn ei feddiant
c) disgybl yn arddangos, efallai drwy weithredoedd neu chwarae, lefel amhriodol o wybodaeth am gyffuriau ar gyfer ei oedran
d) daw i'r amlwg bod disgybl yn cyflenwi cyffuriau ar safle'r ysgol
e) credir bod disgybl dan ddylanwad cyffuriau
f) disgybl yn arddangos arwyddion salwch neu ymddygiad amhriodol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau
g) aelod o staff ar ddeall bod cyffuriau'n cael eu cyflenwi neu eu gwerthu'n anghyfreithlon yn yr ardal leol.
h) disgybl yn datgelu ei fod yn camddefnyddio cyffuriau neu fod aelod o'r teulu/ffrind yn camddefnyddio cyffuriau.

Dylid tynnu sylw'r Uwch Berson Dynodedig at y digwyddiadau hyn a gwneud cofnod ar MyConcern.

**Sylweddau Penodol**

Rydym yn cydnabod nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a byddwn yn ei haddasu a'i diweddaru yn dilyn trafodaethau ag asiantaethau lleol a'r heddlu.

- Alcohol
- Tybaco a Fepiau
- Toddyddion
- GHB/Poppers ac ati.
- Ketamine
- Madarch Hud
- Ritalin
- Anterthau cyfreithlon e.e. Methodrone

Pam bod pryderon ynghylch “anterthau cyfreithlon”?

- Nid yw'r ffaith bod cyffur yn gyfreithlon yn golygu ei fod yn ddiogel.
- Gall risgiau anterthau cyfreithiol gynnwys llai o swildod, teimlo'n gysglyd, cyffro neu baranoia, coma, trawiadau, a marwolaeth.
- Mae'r risgiau hyn yn cynyddu os cymysgir yr anterthau hyn ag alcohol neu gyffuriau eraill.

Yn ôl canllawiau presennol, gall athrawon atafaelu, a gwaredu, unrhyw anterthau cyfreithlon y dônt ar eu traws ar safle'r ysgol.

**Addysg Camddefnyddio Sylweddau yn y Cwricwlwm.**

Bydd addysg camddefnyddio sylweddau yn rhan o'r ddarpariaeth Iechyd a Lles yn unol â Fframwaith Iechyd a Lles Cwricwlwm Cymru, Asiantaethau Allanol, grwpiau theatr, ac athrawon dosbarth.

Bydd y cynnwys yn seiliedig ar Gwricwlwm Cymru a'r Fframwaith Iechyd a Lles a bydd yn rhan o'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag addysg Iechyd. Defnyddir dull cytbwys o feithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Caiff y disgyblion gyfleoedd i gadarnhau eu hagweddau, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ynglŷn â chyffuriau.

Croesgyfeirir Rhaglen Iechyd a Lles yr ysgol â chwricwlwm Gwyddoniaeth yr ysgol.

**Mae rhaglen Cyfnod Allweddol 3 yn cynnwys:**

- arddangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- meithrin agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at eraill
- deall effeithiau a risgiau defnyddio amrywiaeth o gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r cyfreithiau sy'n rheoli eu defnydd
- sut i ddefnyddio alcohol yn gyfrifol a risgiau goryfed mewn pyliau
- sut i gael gafael ar ffynonellau gwahanol o ran gwybodaeth, cymorth a chyngor

**Mae rhaglen Cyfnod Allweddol 4 yn cynnwys:**

- cymryd cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- deall y canlyniadau byrdymor a hirdymor wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag iechyd personol
- deall canlyniadau cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon
- sut i gael gafael ar gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus.

**Mae'r Rhaglen ôl-16 yn cynnwys:**

- derbyn cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol a lles
- bod yn fodelau rôl ar gyfer disgyblion iau
- deall sut i werthuso dewisiadau ffordd o fyw personol
- deall yr angen i gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch personol a diogelwch grŵp mewn lleoliadau cymdeithasol

**Bagloriaeth Cymru:**

- Cwmpesir cyffuriau, alcohol a smygu yn adran iechyd cynlluniau gwaith Bagloriaeth Cymru.
- Ymhlith y sgiliau pwysig sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau i'w meithrin yn yr ysgol mae: ymwrthod â phwysau, dadansoddi risg, gwneud penderfyniadau, datrys problemau a sgiliau cymorth cyntaf syml.
- Ymhlith y gwerthoedd pwysig sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau i'w hyrwyddo yn yr ysgol mae: parch tuag at eich hun ac eraill; meddwl yn annibynnol a'r hawl i feddu ar farn unigol; cadw eich hun yn ddiogel; gofalu am y corff; gonestrwydd a gwirionedd; sensitifrwydd i'r amgylchedd.
- Mae gan yr ysgol Gydlynydd Iechyd a Lles a bydd yn sicrhau y bydd rhaglen addysg camddefnyddio cyffuriau wedi'i chynllunio a'i chydlynu ar waith. Bydd

yn monitro ac yn gwerthuso addysg cyffuriau fel rhan o'r ddarpariaeth Iechyd a Lles.

**Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion**
Ymunodd yr ysgol â'r Rhwydwaith yn 2014 a bydd yn defnyddio'r data gan fyfyrwyr ar ymddygiadau iechyd, a ddarperir bob dwy flynedd, i lywio blaenoriaethau a galluogi'r gwaith o fonitro ymddygiad disgyblion o ran camddefnyddio sylweddau.

**Iechyd a Diogelwch**
Caiff tir yr ysgol ei archwilio'n rheolaidd am unrhyw nodwyddau a chwistrellau neu unrhyw gyfarpar cyffuriau arall. Dywedir wrth y disgyblion i beidio â chyffwrdd ag unrhyw nodwyddau neu chwistrellau a ganfyddir ac i hysbysu athro ar unwaith.

**Digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau**
Bydd yr ysgol yn trin unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau sy'n cynnwys disgybl yn yr ysgol o ddifrif a chaiff pob achos ei drin yn ôl ei gyd-destun. Y brif flaenoriaeth yw lles y plentyn. Ymdrinnir â digwyddiadau drwy ddilyn strwythur Lles a Diogelu yr ysgol a chyfeirio pob achos at blatfform MyConcern.

**Cyfrinachedd**
Er nad oes unrhyw ddyletswydd gyffredinol mewn cyfraith droseddol i ddatgelu gwybodaeth am unigolyn sy'n camddefnyddio sylweddau, dywedir yn glir wrth y disgyblion wrth drafod materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau na ellir gwarantu cyfrinachedd.

**Ymdrin â'r Cyfryngau**
Dylid cyfeirio pob ymholiad gan y cyfryngau am achosion o gamddefnyddio sylweddau a’r rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau at y Pennaeth. Bydd yr ysgol yn ceisio meithrin cydberthnasau da â gohebwyr lleol a dwyn eu sylw at enghreifftiau o arfer dda yn yr ysgol.

**Adolygu**
Caiff y polisi ei adolygu a'i werthuso yn flynyddol. Ymhlith yr agweddau i'w hystyried yw lefel ganfyddedig y wybodaeth sydd gan y disgyblion a'u hagweddau a'u gwerthoedd; nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau bob blwyddyn a chanlyniadau'r digwyddiadau.

| | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| Cymeradwywyd gan Rhys Angell Jones<br>Pennaeth |  | 15.10.25 |
| Cymeradwywyd gan Rob Evans<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr |  | 15.10.25 |

# POLICY FOR THE PREVENTION OF SUBSTANCE MISUSE

**DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD**

By co-operating and trusting each other we want to ensure that every pupil fulfils his or her potential with regard to their ability and talents. We do this by offering opportunities, support and guidance within a positive, broadminded, safe and civilised society.

## The vision for our pupils

We want to develop pupils who are fluent in Welsh and English who are proud of the tradition and heritage of their locality and country. We seek balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and are comfortable with themselves. They will respect their minds, their spirit and their bodies and they will have broad horizons and curiosity for new information. They possess the necessary skills to benefit from challenges in the future in the world of work and in society and they will want to continue to grow and develop as lifelong learners and citizens of the world.

**Introduction**

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg is committed to taking seriously its part in the education of children about substance use and misuse. It supports the All-Wales strategy for tackling substance use and misuse in helping children and young people resist substance use and misuse to achieve their full potential in society.

Within the general Health and Wellbeing provision of the school there is a programme of substance misuse education relevant to the age of the children. Strategies for managing any drug-related incidents are also identified. Both of these strands reflect the local authority guidance and that of the Welsh Government in guidance circular 107/2013.

This policy statement has been formed after consultation with staff, pupils, parents, and health professionals.

**The Rationale of substance misuse education**

The central aim of substance misuse education is to empower children to make healthy, responsible informed decisions about drugs. It will make an important contribution to stopping young people starting using a substance or delaying the onset of first use.

To empower children to make informed choices we will achieve by:

a) giving accurate information about drugs and their effects, the law, ways of keeping safe;
b) exploring attitudes skills and understanding, discussing risk-taking and building up self-esteem;
c) developing personal and social skills, such as communicating effectively, being assertive, making decisions, problem solving.

The school recognises that approaches in substance misuse education which have been shown to be not only ineffective but even counterproductive are - shock-horror, information only focus and one-off talks by outside speakers. Approaches which have been shown to have some success in reducing drug taking behaviour or delaying its onset are broadly based life skill approaches.

The school recognises that substance misuse education is not so much about drugs but more about the children themselves - their values and attitudes, their relationships, their problems, their risk-taking, their decisions, their sensation seeking. Therefore, children need to be engaged actively in the process which addresses knowledge, attitudes and values and behaviour.

**Aims**

The aims of substance misuse education in this school are:

a) to help children be aware of the dangerous substances that might be around them at home and in the community - e.g. cigarettes, vapes, alcohol and legal and illegal substances.
b) to give children sufficient information about substances so that they can keep themselves and others safe.
c) to help children explore their attitudes and values and equip them with relevant skills so that they can make informed and healthy choices about substances.

**The management of drug-related issues and incident in school**

1. The definition of a 'drug'

A drug is a substance people take to change the way they feel, think or behave.

The following gives a clear list of categories to help define the word drug':

Drugs which are controlled/illegal substances (for example, cannabis, amphetamines, ecstasy, LSD, Khat) under the Misuse of Drugs Act 1971
Over the counter and prescription medicines, including those used improperly which can include sleeping tablets and slimming tablets. All legal drugs including alcohol, tobacco, volatile substances and solvents, Ketamine, and alkyl nitrites
Drugs which are misused to enhance performance (for example analgesics or steroids)

The following nationally recognised definitions are used by Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg:

**Drug use**
Drug use is drug taking through which harm may occur, whether through intoxication, breach of school rules or the law, or the possibility of future health problems, although such harm may not be immediately perceptible. Drug use will require interventions such as management, education, advice and information, and prevention work to reduce the potential for harm. Any actions will be linked to the school's policy on safeguarding.

**Drug misuse**
Drug taking which harms health or functioning. It may take the form of physical or psychological dependence or be part of a wider spectrum of problematic or harmful behaviour. Drug misuse will require a further range of interventions, which may include treatment.

**Defining a drug incident**
An incident is likely to involve suspicions, observations, disclosures or discoveries of situations involving unauthorised drugs. It could fit into the following categories:

a) drugs or associated paraphernalia are found on school premises
b) a pupil is found in possession of drugs or associated paraphernalia
c) a pupil demonstrates, perhaps through actions or play, an inappropriate level of knowledge of drugs for their age
d) a pupil is found to be a recognised source of supply of drugs on school premises
e) a pupil is thought to be under the influence of drugs
f) a pupil is displaying signs of illness or inappropriate behaviour as a result of substance misuse
g) a staff member has information that the illegitimate sale or supply of drugs is taking place in the local area
h) a pupil discloses that they are misusing drugs, or a family member/friend is misusing drugs.

All these incidents should be brought to the attention of the Designated Senior Person (DSP) and logged on MyConcern

**Specific substances**
There is a recognition that this list is not exhaustive and will be informed and updated in discussion with local agencies and police.

- Alcohol
- Tobacco and Vapes
- Solvents
- GHB/Poppers etc.
- Ketamine
- Magic mushrooms
- Ritalin
- Legal highs including Mephedrone

Why is there concern about "legal highs"?

- Just because a drug is legal to possess, it does not mean it's safe.
- Risks of legal highs can include reduced inhibitions, drowsiness, excited or paranoid states, coma, seizures, and death.
- These risks are increased if used with alcohol or other drugs.

Under current guidance, teachers can confiscate, and dispose of, any legal highs that they find on school property.

**Substance Misuse Education in the Curriculum**

Substance misuse education will form part of the Health and Wellbeing provision in accordance with the Curriculum and the Health and Wellbeing Framework, Outside Agencies, Theatre groups, and classroom teachers.

The content will be based on the Welsh Curriculum and on the Health and Wellbeing Framework and will form part of the whole school approach to Health education. A balanced approach will be taken to develop knowledge skills and understanding. Pupils will be given opportunities to clarify their attitudes skills and understanding towards about drugs.

The Health and Wellbeing curriculum is cross-referenced with the Science curriculum

**Key Stage 3 programme includes:**

- displaying a responsible attitude towards keeping the mind and body safe and healthy
- developing positive attitudes towards themselves and others
- understanding the effects and risks from the use of a range of legal and illegal substances and the laws governing their use
- How to use alcohol responsibly and the risks of binge drinking
- How to access different sources of information, support and advice

**Key stage 4 programme includes:**

- accepting personal responsibility for keeping the mind and body safe and healthy
- understanding the short- and long-term consequences when making decisions about personal health
- understanding the social and legal consequences of the use of legal and illegal substances
- how to access professional health advice and personal support with confidence.

**Post 16 programme includes:**

Accepting responsibility for all aspects of personal and social development and well-being

- acting as role models for younger students
- understanding how to evaluate personal lifestyle choices
- understanding the need to exercise responsibility for personal and group safety in social settings

**Welsh Baccalaureate:**

- Drugs, alcohol and smoking are covered in the health section of the Welsh Baccalaureate scheme of work.
- Important skills related to substance misuse education to be developed in the school are resisting pressure, analysing risk, decision making, problem solving and simple first aid skills.

- Important values related to substance misuse education to be promoted in the school are: respect for self and others; independence of mind and the right to hold individual views; keeping oneself safe; looking after the body; honesty and truth; sensitivity to the environment.
- The school has a Health and Wellbeing Co-ordinator, who will ensure that a planned and co-ordinated programme of substance misuse education is in place. This is monitored and evaluated as part of the Health and Wellbeing provision.

**School Health Research Network**
The school joined the Network in 2014 and will use the student data relating to health behaviours, provided every two years, to inform priorities and allow the monitoring of student behaviour in relation to substance misuse.

**Health and Safety**
The grounds of the school are checked regularly for any needles and syringes or any other drug paraphernalia. Students are directed not to touch any needle or syringe found and to inform a teacher immediately.

**Drug-related incidents**
Any drug related incident involving a pupil in the school will be taken seriously and each case dealt with in its own context. The immediate priority is the welfare of the child. Any incidents are dealt with through following the school's Wellbeing and Safeguarding structure and are also logged on the MyConcern platform.

**Confidentiality**
Although there is no general duty in criminal law to disclose information about an individual's personal substance misuse, it will be made clear to the children that when substance misuse issues are discussed no guarantee of confidentiality can be made.

**Dealing with the media**
All enquiries from the media about substance misuse incidents and the programme of substance misuse education should be directed towards the Head Teacher. The school will attempt to build good relationships with local reporters and bring to their attention examples of good practice within the school.

**Review**
The policy will be reviewed and evaluated annually. Aspects to be considered are the perceived level of knowledge and the attitudes and values of the children, the number of drug related incidents each year and the outcomes of the incidents.

| | **Signature** | **Date** |
|---|---|---|
| Approved by Rhys Angell Jones<br>Headteacher | | 15.10.25 |
| Approved by Rob Evans<br>Chair of Governors | | 15.10.25 |